Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion

**DOGFEN YMGYNGHORI**

# Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 yn lle:

## Ysgol Gynradd Alltwen

*Bryn Alltwen, Pontardawe SA8 3AB*

## Ysgol Gynradd Godre'r-graig

*Ffordd Graig, Godre'r Graig, SA9 2NY*

## Ysgol Gynradd Llan-giwg

*Heol Newydd, Ynysmeudwy SA8 4PJ*

## y bydd pob un ohonynt yn dirwyn i ben ar 31 Awst 2025

Mae fersiynau print bras, fformat amgen neu fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais

**Cyflwyniad**

Ar 20 Hydref 2021, ar ôl i broses ymgynghori drylwyr ddigwydd, oedd yn unol â Chod Trefnu Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ar y pryd gynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 oed gyda Chanolfan Gefnogi Dysgu (LSC) arbenigol ar gyfer 16 disgybl oedd wedi cael datganiad o anghenion addysgol arbennig yn ymwneud ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD) mewn adeiladau newydd sbon a fyddai'n dod yn gartref i ddisgyblion o ardaloedd dalgylch presennol Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg, y byddai pob un ohonynt yn cau ar Awst 31ain 2024.

Ym mis Ionawr 2022, derbyniodd y Cyngor hysbysiad fod y penderfyniad yn mynd i gael ei herio gan grŵp yn cynrychioli rhieni addysg cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd yr her ar dair sail, a phob un yn ymwneud â'r cysyniad y dylid bod wedi cynnwys Asesiad Effaith Iaith Gymraeg fel rhan o'r broses ymgynghori wreiddiol. Bu i'r dyfarniad a dderbyniwyd ym mis Hydref 2022 gynnal un o'r tri maes apêl.

Ymhellach, ym mis Mehefin 2022, awgrymodd gweinyddiaeth newydd Clymblaid yr Enfys yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot yr hoffai adolygu penderfyniad y weinyddiaeth flaenorol a gymerwyd o ran y cynnig i ad-drefnu ysgolion yng Nghwm Tawe.

Yng ngoleuni'r dyfarniad, ac awydd y weinyddiaeth newydd i gynnal adolygiad, mae ymgynghoriad newydd yn digwydd. Anogir rhanddeiliaid i gymryd rhan, bydd pob cyflwyniad ac ymateb yn cael ystyriaeth, ac ymatebir iddynt mewn adroddiad ymgynghorol fel y manylir gan y Cod.

**Adroddiad am beth yw hwn?**

Mae'r ddogfen hon ar gyfer disgyblion, rhieni / gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac eraill y mae ganddynt ddiddordeb ym myd addysg yng Nghwm Tawe ac yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu'r ddogfen ymgynghori hon am ei bod yn cynnig sefydlu ysgol 3-11oed cyfrwng Saesneg, 21ain Ganrif, mewn adeilad newydd sbon, yn lle sefydliadau presennol Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2025.

Cynigir hefyd gynnwys Canolfan Cymorth Dysgu newydd ar gyfer hyd at 16 o ddisgyblion oedran cynradd ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Cynigir adeiladu'r ysgol ar dir y cyngor ym Mharc Ynysderw, yn agos at Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Disgwylir iddo agor ar 1 Medi 2024.

Yn ogystal, fel rhan o'r cynllun adeiladu newydd, cynigir adeiladu pwll 25m newydd a phwll addysgu ar y safle i gymryd lle pwll nofio presennol Pontardawe. Bydd y pwll yn darparu cyfleuster ychwanegol ochr yn ochr â Chanolfan Hamdden Pontardawe, gan adfywio a chynyddu'r cyfleusterau iechyd a lles yn yr ardal.

Bydd cyfuniad yr adeilad ysgol newydd, darpariaeth ASA arbenigol a chyfleusterau hamdden yn rhan o gampws dysgu, iechyd a lles cymunedol ar safle Parc Ynysderw.

**Cefndir y Cynnig**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am sicrhau addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Cael yr ysgolion iawn yn y lle iawn a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr yn yr 21ain Ganrif yw'r her sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd cyflawni hyn yn cynnwys adolygu nifer a math yr ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu a yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau a chyfleusterau ai

peidio.  Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth addas ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gweithredu'r Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (SSIP) yn golygu adolygu'r ddarpariaeth bresennol a phennu'r nifer a'r math o ysgolion sydd eu hangen i ddarparu addysg yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws y Fwrdeistref Sirol.  Mae'n debyg y bydd yn arwain at newid sylweddol fydd yn golygu agor ysgolion newydd, cau ysgolion presennol, uno ysgolion, ffedereiddio ysgolion a hyrwyddo mentrau newydd sy'n cefnogi cydweithio rhwng ysgolion.  Bydd hefyd yn cynnwys ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i'r cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd penodol sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol ac yn elwa arnynt.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- safonau addysgol
- yr angen am leoedd a hygyrchedd ysgolion
- ansawdd ac addasrwydd adeiladau ysgolion
- rheolaeth ariannol effeithiol

Ar 30 Tachwedd 2022, rhoddodd Cabinet y Cyngor ganiatâd i ymgynghori ar y cynnig i sefydlu ysgol 3-11 i gymryd lle ysgolion cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llan-giwg. Hoffai'r cyngor dderbyn barn disgyblion, rhieni, staff, Cyrff Llywodraethu a rhanddeiliaid allweddol eraill.

**<u>Y cynnig a'r rheswm dros gynnig y newid</u>**

Mae'r cyngor yn bwriadu adeiladu ysgol gynradd newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer Cwm Tawe i ddisodli ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig  a Llan-giwg,  y bydd pob un ohonynt yn cau ar Awst 31ain 2024.

Cynigir adeiladu’r ysgol newydd ar dir ym Mharc Ynysderw ym Mhontardawe ac y bydd yn rhan o gampws dysgu, iechyd a lles cymunedol sy'n cynnwys Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Caiff y campws ei wella ymhellach drwy ychwanegu pwll nofio newydd ar y safle i ategu'r ddarpariaeth bresennol a gwella'r cynnig iechyd a lles i ddisgyblion a'r gymuned ehangach.

Bydd yr ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed yn cynnal 630 o ddisgyblion llawn amser a 140 o ddisgyblion oedran meithrin rhan-amser (70 am/70 pm) mewn cyfleuster newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif a fydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Bydd yr ysgol newydd yn gwasanaethu dalgylchoedd cyfunol ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig  a Llan-giwg a bydd ganddi ddigon o leoedd i ddisgyblion o'r ardal. Bydd disgyblion o'r tair ysgol bresennol yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol newydd yn amodol ar ddewis y rhieni. Caiff ei rheoli gan un pennaeth ac un corff llywodraethu a bydd ganddi un dyraniad cyllideb ac un grŵp o staff.

Yn ogystal, bydd yr ysgol newydd yn darparu canolfan cymorth dysgu ar gyfer hyd at 16 o ddisgyblion â datganiadau ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA). Bydd cyfle hefyd iddi ddod yn ganolfan gymunedol ar gyfer yr ardal, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan ganolfannau cymorth dysgu sefydledig ysgolion cynradd eraill.

Caiff yr adeilad newydd ei ariannu ar y cyd gan arian grant cyfalaf Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a gallu benthyca darbodus y cyngor.

Bydd adeilad newydd yr ysgol gyfunol, y ddarpariaeth ASA arbenigol a'r pwll yn rhan o gampws dysgu, iechyd a lles cymunedol ar safle Parc Ynysderw, gan ategu darpariaeth bresennol Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Trwy leoli'r cyfleusterau adeiladu newydd yn agos at Ysgol Gymunedol Cwmtawe, bydd y datblygiad yn galluogi disgyblion a staff o'r ddwy ysgol i elwa o fwy o weithio mewn partneriaeth, a fydd yn haws oherwydd eu bod yn agos at ei gilydd.

Mae stoc adeiladau'r ysgol yn heneiddio ac mae'r Cyngor yn wynebu costau cynnal a chadw ac atgyweirio cynyddol. Wrth i arian a chyfle ddod ar gael bydd y Cyngor yn ceisio disodli ysgolion presennol gydag adeiladau newydd a chyfleusterau addysgu a dysgu o'r radd flaenaf. Bydd y cynnig hwn yn dileu tua £2m mewn gwaith cynnal a chadw ôl-groniad ar draws y tair ysgol, a bydd hefyd yn dileu trefniant safle rhanedig yn Ysgol Gynradd Llan-giwg.

Ar hyn o bryd, mae'r tair ysgol yn sefydliadau ar wahân, ar safleoedd gryn bellter oddi wrth ei gilydd. Gall creu un ysgol gynradd fwy arwain at fanteision cynyddol i staff a phlant, yn ogystal â galluogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

## <u>Manylion yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig hwn</u>

### Ysgol Gynradd Alltwen

Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd Alltwen ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Fe'i lleolir ym mhentref Alltwen, oddeutu 0.7 milltir o safle posib yr ysgol newydd.

#### *Niferoedd Disgyblion*

Ym mis Ionawr 2020 roedd 200 o ddisgyblion amser llawn a 31 o ddisgyblion rhan-amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan fod ganddi le i gynnal 239 o ddisgyblion amser llawn a 30 o ddisgyblion meithrin rhan amser (30 am/30 pm), canran y lleoedd dros ben yw 16% (39 o leoedd llawn amser i ddisgyblion). Mae rhagolygon, sy'n seiliedig ar dueddiadau presennol derbyniadau ysgolion, rhwng mis Ionawr 2020 a mis Ionawr 2021 yn awgrymu y bydd cynnydd bach yn nifer y disgyblion.

*Tabl 1*

| *Ysgol Gynradd Alltwen* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *Ionawr 2020* | | *Ionawr 2021* |
| | Nifer y lleoedd yn yr ysgol | Nifer Presennol y Disgyblion | Lleoedd dros ben | Nifer Rhagamcanol y Disgyblion |
| *Amser-llawn* | *239* | *200* | *16% (39)* | *203* |
| *Rhan amser (Meithrin)* | *30* | *31* | *-3% (-1)* | *33* |

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd disgyblion dros gyfnod o 5 mlynedd:

*Tabl 2*

| *Ysgol Gynradd Alltwen* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyfrifiad Ysgolion Ion 2016 – 2020 + cofrestr Medi '20* | | | | | | |
| *Blwyddyn* | *16* | *17* | *18* | *19* | *20* | *Medi 20* |
| *Niferoedd Disgyblion* | *215* | *223* | *234* | *240* | *231* | *211* |
| *Amser Llawn* | *184* | *179* | *197* | *208* | *200* | *203* |
| *Rhan amser* | *31* | *44* | *37* | *32* | *31* | *8* |

Nodiadau:

- Lleoedd: Cymerwyd o nifer y lleoedd 19-20
- Niferoedd disgyblion presennol: Cymerwyd o adroddiad PLASC Ionawr 2020
- Data Cyfrifiad Ysgolion '16-'19: Cymerwyd o PLASC – Presennol.

***Ansawdd a safonau addysg***

Arolygwyd Ysgol Gynradd Alltwen ddiwethaf ym mis Hydref 2018 a dywedodd Estyn mai ysgol â llawer o nodweddion da ydoedd, gan roi dyfarniad da yn y 5 maes arolygu. Mae'r ysgol wedi dangos gwelliant pellach a gosodwyd yr ysgol yng nghategori cymorth melyn y System Categoreiddio Genedlaethol yn 2016/17 a 2017/18, gan wneud cynnydd yn 2018/19 a 2019/20, sy'n golygu y caiff ei chydnabod fel ysgol effeithiol sydd wedi sicrhau lefelau da o ddeilliannau dysgwyr mewn dangosyddion perfformiad allweddol.

***Safonau***

Mae gan Ysgol Gynradd Alltwen 255 o ddisgyblion ar y gofrestr (Arolwg Blynyddol Lefelau Disgyblion Ysgol (PLASC) 2022). Yn ystod PLASC 2022 roedd gan yr ysgol nifer is na’r cyfartaledd o blant oedd yn derbyn cinio ysgol am ddim (20.3%) o ran disgyblion ym mlwyddyn 1-6 (o’i chymharu ag ysgolion eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot) ac is nag ysgolion tebyg ledled Cymru (24.2% mewn ysgolion cynradd). Nodwyd hefyd fod gan nifer is na'r cyfartaledd o blant anghenion dysgu ychwanegol (14.1%) o gymharu â Chastell-nedd Port Talbot (20.2%) a Chymru gyfan (15.8%).

Ers 2020, nid yw Llywodraeth Cymru’n disgwyl derbyn cofnodion ar gyfer pob casgliad data statudol a fyddai wedi dod yn ddyledus cyn gwyliau haf yr ysgol, o ganlyniad i bandemig Covid. Mae hyn yn cynnwys casglu data’r Casglu Data Cenedlaethol (NDC) 2020 a chasglu data Profion Cenedlaethol Cymru (WNT) 2020

***Lles ac agweddau at ddysgu***

Barnwyd bod lles ac agweddau at ddysgu disgyblion yn 'dda' yn adroddiad diweddaraf Estyn (Hydref 2018) sy'n nodi: ‘Mae lles disgyblion yn agwedd gref iawn ar fywyd Ysgol Alltwen. Mae bron pob disgybl yn teimlo’n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol.’

Bu presenoldeb yn ystod 2021/22 yn 90.3% ar gyfer blwyddyn 1-6, sy’n uwch na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot o 89.2%.

***Dysgu ac Addysgu***
Dywedodd Estyn yn 2018 fod addysgu effeithiol ar draws Ysgol Gynradd Alltwen yn hyrwyddo cynnydd da ymysg disgyblion ac, o ganlyniad, fod cydberthnasau'n gadarnhaol ac yn barchus, bod llawer o ystafelloedd dosbarth yn gynhyrchiol ac yn drefnus, a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion eisiau ddysgu.

Barnwyd bod ansawdd y profiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd Alltwen yn dda ar y cyfan ac mae cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu sgiliau llafaredd a darllen y disgyblion mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

***Gofal, Cymorth ac Arweiniad***

Adroddodd Estyn hefyd fod gofal, cymorth ac arweiniad yn dda, gan nodi bod y Pennaeth wedi sefydlu ethos cynhwysol a gofalgar sy'n treiddio i fywyd beunyddiol yr ysgol.

***Arweinyddiaeth a Rheolaeth***
Yn 2018, roedd Estyn o'r farn bod arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Gynradd Alltwen yn dda, gan ddweud: 'Mae'r pennaeth yn arweinydd llawn cymhelliant sy'n darparu gweledigaeth a rennir sy'n glir ac yn strategol ar gyfer yr ysgol.'

Gellir gweld adroddiad arolygu diweddaraf Estyn yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu

***Ansawdd Adeiladau***
Mae Ysgol Gynradd Alltwen ar safle dyrchafedig amlwg ar Riw Alltwen, Alltwen, Pontardawe ac er ei bod o fewn un safle caeëdig, mae'n gweithredu rhwng dau adeilad ar wahân (pellter byr oddi wrth ei gilydd o fewn ffin y safle).

Mae'r arolwg diweddaraf o gyflwr adeiladau (Mehefin 2022) yn nodi bod yr adeilad mewn cyflwr da ar y cyfan, ond y bydd angen buddsoddi mewn ardaloedd mewnol ac allanol gan gynnwys gwasanaethau mecanyddol a thrydanol.

Gosodwyd boeler newydd yn ddiweddar, ond mae'r system ddyrannu gwres yn hen ac aneffeithiol, ac mae wedi goroesi'i hoes ymarferol a'r hyn sy'n gymeradwy, a bydd angen ei hadnewyddu.

Yn gyffredinol, mae gan y safle radd C+ o ran cyflwr, h.y. mae'r adeilad yn weithredol ond bydd angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu mawr. Ôl-groniad y costau cynnal a chadw a hygyrchedd a fydd angen eu gwario o fewn 5 mlynedd yw £811,500.

Nid yw cynlluniau ar gyfer y safle a adewir wedi'u datblygu eto. Y Cyngor sy'n berchen ar y safle a bydd unrhyw ddefnydd yn y dyfodol yn cael ei ystyried yng nghyd-destun proses reoli asedau corfforaethol y Cyngor.

**Ysgol Gynradd Godre'r-graig**

Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd Godre'r-graig ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Fe'i lleolir ym mhentref Godre'r-graig, oddeutu 3.2 milltir o safle posib yr ysgol newydd.

Ym mis Gorffennaf 2019, symudwyd Ysgol Gynradd Godre’r-graig dros dro o Odre’r-graig  i Barc Ynysderw, gerllaw Ysgol Gymunedol Cwmtawe, ar ôl i arbenigwyr daearegol ganfod bod risg o dirlithriad posib i faes chwarae'r ysgol.

Adroddodd Earth Science Partnership (ESP), yr arbenigwyr a gomisiynwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, fod risg lefel ganolig oherwydd tomen wastraff chwarel ger yr ysgol ar ôl i'r cyngor ofyn iddo ymestyn ei waith ymchwilio risg o dirlithriad helaeth a wnaed ym Mhant-teg ger Ystalyfera.

Datgelodd adroddiad pellach ym mis Medi 2021 fod tomen wastraff y chwarel yn symud, a nodir ei bod bellach yn ‘weithredol ansefydlog’. Mae hi’n amlwg felly y byddai’n anniogel gadael i staff a disgyblion ddychwelyd i’r ysgol. Mae’r cynnig hwn i adeiladu ysgol newydd yn rhoi cyfle i ddisgyblion Ysgol Gynradd Godre’r-graig gael eu hadleoli’n barhaus, ac i elwa o ddarpariaeth cyfleusterau'r 21ain Ganrif.

Mae adeilad Heol y Graig yn rhyw 100 mlwydd oed, ac adroddodd yr arolwg cyflwr adeilad mwyaf diweddar (Tachwedd 2018) fod yr adeilad mewn cyflwr gwael i gymedrol, ac y’u categoreiddir fel cyflwr C-. Cyfanswm ôl-groniad y costau cynnal a chadw a hygyrchedd (indecs wedi’i addasu i Ebrill 2022) yw £869,419. Am fod y safle’n anniogel ac anweithredol, ni chynhwyswyd y ffigwr hwn yn yr wybodaeth ôl-groniad costau cynnal a chadw a hygyrchedd a ddyfynnir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

### *Niferoedd Disgyblion*

Ym mis Ionawr 2020, roedd 135 o ddisgyblion amser llawn a 18 rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan fod ganddi le i gynnal 162 o ddisgyblion amser llawn a 19 o ddisgyblion meithrin rhan amser (19 am/19 pm), canran y lleoedd dros ben yw 17% (27 o leoedd disgyblion llawn amser). Mae rhagolygon, sy'n seiliedig ar dueddiadau presennol derbyniadau ysgolion, rhwng mis Ionawr 2020 a mis Ionawr 2021 yn awgrymu y bydd cynnydd bach yn nifer y disgyblion.

*Tabl 3*

| Ysgol Gynradd Godre’r-graig | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *Ionawr 2020* | | *Ionawr 2021* |
| | Nifer y lleoedd yn yr ysgol | Nifer Presennol y Disgyblion | Lleoedd dros ben | Nifer Rhagamcanol y Disgyblion |
| *Amser llawn* | *162* | *135* | *17% (27)* | *134* |
| *Rhan amser (Meithrin)* | *19* | *18* | *5% (1)* | *22* |

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd disgyblion dros gyfnod o 5 mlynedd:

*Tabl 4*

| Ysgol Gynradd Godre’r-graig | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyfrifiad Ysgolion Ion 2016 – 2020 + cofrestr Medi '20* | | | | | | |
| *Blwyddyn* | *16* | *17* | *18* | *19* | *20* | *Medi 20* |
| *Niferoedd Disgyblion* | *138* | *147* | *156* | *159* | *153* | *144* |
| *Amser Llawn* | *114* | *122* | *134* | *134* | *135* | *136* |
| *Rhan amser* | *24* | *25* | *22* | *25* | *18* | *8* |

Nodiadau:

- Lleoedd: Cymerwyd o nifer y lleoedd 19-20
- Niferoedd disgyblion presennol: Cymerwyd o adroddiad PLASC Ionawr 2020
- Data Cyfrifiad Ysgolion '16-'19: Cymerwyd o PLASC – Presennol.

### *Ansawdd a Safonau Addysg*

Arolygwyd Ysgol Gynradd Godre’r-graig ddiwethaf ym mis Mehefin 2017 a dywedodd Estyn mai ysgol â llawer o nodweddion da ydoedd, gan roi dyfarniad da ar gyfer y tri maes arolygu, y safonau cyfredol a'r rhagolygon ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn dangos gwelliant ac mae'r ysgol wedi bod yn y categori cymorth Melyn yn ôl y System Categoreiddio Genedlaethol ers 2015/16 hyd at 2019/20, sy'n ei chydnabod fel ysgol sy'n gwella ac sy'n sicrhau lefelau da o ddeilliannau dysgwyr mewn dangosyddion perfformiad allweddol.

### *Safonau*

Mae gan Ysgol Gynradd Godre’r-graig 134 o ddisgyblion ar y gofrestr (Arolwg Blynyddol Lefelau Disgyblion Ysgol (PLASC) 2022). Yn ystod PLASC 2022 roedd gan yr ysgol nifer is na’r cyfartaledd o blant oedd yn derbyn cinio ysgol am ddim (25.9%) o ddisgyblion ym mlwyddyn 1-6 (o’i o'i chymharu ag ysgolion eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot (30.2% o flwyddyn 1-6). Nodwyd hefyd fod gan nifer is na'r cyfartaledd o blant anghenion dysgu ychwanegol (17.9%) o'i gymharu â Chastell-nedd Port Talbot (20.2%). Ers 2020, nid yw Llywodraeth Cymru’n disgwyl derbyn cofnodion ar gyfer pob casgliad data statudol a fyddai wedi dod yn ddyledus cyn gwyliau haf yr ysgol, o ganlyniad i bandemig Covid. Mae hyn yn cynnwys casglu data’r Casglu Data Cenedlaethol (NDC) 2020 a chasglu data Profion Cenedlaethol Cymru (WNT) 2020

### *Lles ac agweddau at ddysgu*

Barnwyd bod lles yn 'dda' yn adroddiad diweddaraf Estyn (Mehefin 2017): ‘Mae disgyblion yn hyderus bod yr holl staff yn gofalu amdanynt ac y byddant yn datrys unrhyw faterion yn gyflym ac yn deg;’ a ‘...

cryfder gwirioneddol disgyblion, drwy'r ysgol, yw'r ffordd y maent yn gweithio ar y cyd ac yn gyd-ddibynnol'.

Roedd presenoldeb yn ystod 2021/22 yn 90.9%, oedd yn uwch na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot o 89.2%

***Dysgu ac Addysgu***

Nododd Estyn yn ei adroddiad yn 2017 fod Ysgol Gynradd Godre'r-graig yn darparu profiadau dysgu digonol ar draws yr ysgol. Barnwyd bod ansawdd yr addysgu yn Ysgol Gynradd Godre'r-graig yn dda ar y cyfan. Barnwyd hefyd fod gofal, cymorth ac arweiniad yn 'dda', a nododd Estyn (Mehefin 2017) fod 'yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd gofalgar sy'n datblygu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol'. Barnwyd bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Godre'r-graig yn gryf gan Estyn yn 2017.

***Arweinyddiaeth a Rheolaeth***

Yn 2017, roedd Estyn o'r farn bod arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Gynradd Godre'r-graig yn dda, gan ddweud: 'Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae hi'n rhannu hyn yn effeithiol gyda'r holl randdeiliaid'.

Gellir gweld adroddiad arolygu diweddaraf Estyn yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu

***Ansawdd Adeiladau***

Ers mis Gorffennaf 2019, adleolwyd Ysgol Gynradd Godre'r-graig o bentref Godre'r-graig i adeiladau dros dro ym Mharc Ynysderw. Mae'r adeiladau hyn o safon dda ac yn addas i bwrpas cartrefu disgyblion oedran cynradd, ond adeiladau wedi'u llogi ydynt, ac nid ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer eu defnyddio'n barhaus yn y tymor hirach.

**Ysgol Gynradd Llan-giwg**

Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd Llan-giwg, ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Fe'i lleolir ym mhentref Ynysmeudwy, sydd oddeutu 1.3 milltir o safle posib yr ysgol newydd.

***Niferoedd Disgyblion***

Ym mis Ionawr 2020, roedd 119 o ddisgyblion amser llawn a 17 o ddisgyblion rhan-amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan fod ganddi le i gynnal 147 o ddisgyblion amser llawn a 53 o ddisgyblion meithrin rhan amser (53 am/53 pm), canran y lleoedd dros ben yw 19% (28 o leoedd disgyblion llawn amser). Mae rhagolygon, sy'n seiliedig ar dueddiadau presennol derbyniadau ysgolion rhwng mis Ionawr 2020 a mis Ionawr 2021 yn awgrymu gostyngiad bach yn niferoedd y disgyblion.

*Tabl 5*

| *Ysgol Gynradd Llan-giwg* | | | |
|---|---|---|---|
| | *Ionawr 2020* | | *Ionawr 2021* |

| | Nifer y lleoedd yn yr ysgol | Nifer Presennol y Disgyblion | Lleoedd dros ben | Nifer Rhagamcanol y Disgyblion |
|---|---|---|---|---|
| *Amser llawn* | *147* | *119* | *19% (28)* | *109* |
| *Rhan amser (Meithrin)* | *53* | *17* | *68% (36)* | *16* |

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd disgyblion dros gyfnod o 5 mlynedd:

*Tabl 6*

| *Ysgol Gynradd Llan-giwg* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyfrifiad Ysgolion Ion 2016 – 2020 + cofrestr Medi '20* | | | | | | |
| *Blwyddyn* | *16* | *17* | *18* | *19* | *20* | *Medi 20* |
| *Niferoedd Disgyblion* | *152* | *150* | *136* | *138* | *136* | *127* |
| *Amser Llawn* | *130* | *124* | *120* | *124* | *119* | *109* |
| *Rhan amser* | *22* | *26* | *16* | *14* | *17* | *18* |

Nodiadau:

- Lleoedd: Cymerwyd o nifer y lleoedd 19-20
- Niferoedd disgyblion presennol: Cymerwyd o adroddiad PLASC Ionawr 2020
- Data Cyfrifiad Ysgolion '16-'19: Cymerwyd o PLASC – Presennol.

***Ansawdd a safonau addysg***

Arolygwyd Ysgol Gynradd Llan-giwg ddiwethaf ym mis Ionawr 2019 a dywedodd Estyn mai ysgol â llawer o nodweddion da ydoedd, gan roi dyfarniad da ar gyfer pedwar o'r pum maes arolygu. Mae'r ysgol wedi dangos gwelliant parhaus.

***Safonau***

Mae gan Ysgol Gynradd Llan-giwg 125 o ddisgyblion ar y gofrestr (Arolwg Blynyddol Lefelau Disgyblion Ysgol (PLASC) 2022). Yn ystod PLASC 2022 roedd gan yr ysgol nifer **uwch na'r cyfartaledd** o blant oedd yn derbyn cinio ysgol am ddim (34% o ddisgyblion ym mlwyddyn 1-6) o'i o'i chymharu ag ysgolion eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot (30.2% o flwyddyn 1-6). Nodwyd hefyd fod gan nifer ychydig **uwch na'r cyfartaledd** o blant anghenion dysgu ychwanegol (21.6%) o'i gymharu â Chastell-nedd Port Talbot (20.2%).

Ers 2020, nid yw Llywodraeth Cymru'n disgwyl derbyn cofnodion ar gyfer pob casgliad data statudol a fyddai wedi dod yn ddyledus cyn gwyliau haf yr ysgol, o ganlyniad i bandemig Covid. Mae hyn yn cynnwys casglu data'r Casglu Data Cenedlaethol (NDC) 2020 a chasglu data Profion Cenedlaethol Cymru (WNT) 2020

***Lles ac agweddau at ddysgu***

Barnwyd bod lles ac agweddau at ddysgu disgyblion yn 'foddhaol ac angen gwella' yn adroddiad diweddar Estyn (Ionawr 2019) ond dywedodd, Mae’r mwyafrif (disgyblion) yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu ac yn mynd i’r afael â thasgau gyda brwdfrydedd …… ac yn ymgysylltu’n adeiladol â disgyblion eraill.’

Roedd presenoldeb yn ystod 2021/22 yn 89.1%, oedd ychydig yn is na chyfartaledd Castell-nedd Port Talbot o 89.2%

***Profiadau Dysgu ac Addysgu***

Dywedodd Estyn yn ei adroddiad yn 2019 fod Ysgol Gynradd Llan-giwg yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys a wellir gan ystod o brofiadau, gweithgareddau ac ymweliadau sy'n atgyfnerthu ac yn cyfoethogi dysgu.

Barnwyd bod ansawdd y profiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd Llan-giwg yn dda ar y cyfan (Estyn Ionawr 2019). Dywed Estyn fod y rhan fwyaf o athrawon yn gosod disgwyliadau priodol ar gyfer cyflawniad disgyblion ac yn eu hysgogi i weithio'n galed.

***Gofal, Cymorth ac Arweiniad***

Adroddodd Estyn hefyd fod gofal, cymorth ac arweiniad yn dda, gan nodi, ‘Mae’r ysgol yn gymuned hapus, cynhwysol a gofalgar, lle mae disgyblion a staff yn dangos lefelau uchel o barch tuag at ei gilydd. ’ Dywed Estyn hefyd fod yr holl staff wedi ymateb yn sensitif i anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

***Arweinyddiaeth a Rheolaeth***

Yn 2019, roedd Estyn o'r farn bod arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol Gynradd Llan-giwg yn dda, gan ddweud: ‘Mae arweinwyr ar bob lefel yn cynllunio’n briodol ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol ac yn sicrhau gwelliannau gwerth chweil.’

Gellir gweld adroddiad arolygu diweddaraf Estyn yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu

***Ansawdd Adeiladau***

Mae gan Ysgol Gynradd Llan-giwg safle blaenllaw wrth ymyl y ffordd ar New Road, Ynsymeudwy ac mae'n gweithredu ar draws dau safle gwahanol tua 100m i ffwrdd o'i gilydd ar hyd yr un ffordd.

Mae'r prif floc addysgu wedi'i adeiladu o waith carreg gyda manylion a chladin concrit i'r tu blaen a chaban yw'r feithrinfa sydd ar wahân.

Mae'r arolwg diweddaraf o gyflwr adeiladau (Mehefin 2022) yn nodi bod bloc y feithrinfa wedi derbyn buddsoddiad cymedrol dros y blynyddoedd diwethaf a bod ei gyflwr wedi'i gategoreiddio fel gradd B, h.y. mae'r adeilad yn gadarn, yn weithredol ddiogel ac yn arddangos mân ddirywiad yn unig.

Mae'r prif floc mewn cyflwr gwael i deg yn gyffredinol ac mae ei gyflwr wedi'i gategoreiddio fel gradd C. Mae'r system boeleri a dosbarthiad wedi cyrraedd diwedd ei hoes ymarferol ac economaidd ac mae angen cael gwared arni. Yn fewnol, mae angen uwchraddio gorchuddion llawr pren a cheginau.

Yn gyffredinol, cyfanswm y costau gwella cyflwr a hygyrchedd ar gyfer Ysgol Gynradd Llan-giwg ar draws y ddau safle yn ystod y pum mlynedd nesaf yw £1,041,000.

Nid yw cynlluniau ar gyfer y safle a adawodd wedi'u datblygu eto. Y Cyngor sy'n berchen ar y safle a bydd unrhyw ddefnydd yn y dyfodol yn cael ei ystyried yng nghyd-destun proses rheoli asedau corfforaethol y Cyngor.

**<u>Ysgolion eraill allai gael eu heffeithio gan y cynnig hwn</u>**

Mae'r Cod Trefnu Ysgolion (2018) yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch pa wybodaeth y mae'n rhaid ei gynnwys mewn dogfen ymgynghorol, ac mae'n defnyddio'r term 'effeithio' sawl tro yng nghyd-destun ysgolion heblaw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig. Nid oes arweiniad clir yn y Cod o ran yr hyn a olygir gan 'effeithio', felly bu'n angenrheidiol rhagweld pa ysgol neu ysgolion fydd yn cael eu heffeithio, o bosib, mewn rhyw ffordd oherwydd y cynnig, gan ddefnyddio'r egwyddorion isod:

- Ysgolion cyfrwng Saesneg eraill ble gallai disgyblion o'r dalgylch fynychu, neu ble maen nhw eisoes yn mynychu
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg ble gallai disgyblion o'r dalgylch fynychu, neu ble maen nhw eisoes yn mynychu
- Ysgolion ffydd ble gallai disgyblion o'r dalgylch fynychu, neu ble maen nhw eisoes yn mynychu
- Ysgolion uwchradd ble disgwylid i ddisgyblion o'r ysgol newydd drosglwyddo i gael eu haddysg uwchradd a ble gallai disgyblion o'r dalgylch fynychu neu ble maen nhw eisoes yn mynychu
- Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ble disgwylid i ddisgyblion o'r ysgol newydd drosglwyddo i gael eu haddysg uwchradd a ble gallai disgyblion o'r dalgylch fynychu neu ble maen nhw eisoes yn mynychu
- Ysgolion uwchradd ffydd ble disgwylid i ddisgyblion o'r ysgol newydd drosglwyddo i gael eu haddysg uwchradd a ble gallai disgyblion o'r dalgylch fynychu neu ble maen nhw eisoes yn mynychu

Ceir tabl sy'n manylu'r ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot a allai gael ei effeithio, a'r wybodaeth berthnasol amdanynt, yn Atodiad A. Nid yw'r awdurdod yn cadw gwybodaeth am ysgolion y tu allan i Gastell-nedd Port Talbot, ond cynhwyswyd rhestr sy'n cynnwys yr wybodaeth sydd ar gael.

**Pa gynigion amgen a ystyriwyd?**

Archwiliwyd opsiynau lu, ac ystyriwyd manteision ac anfanteision pob opsiwn yn ofalus gan swyddogion. Darperir tabl sy'n manylu'r 15 opsiwn mwyaf rhesymol a ystyriwyd yn Atodiad B. Dim ond un opsiwn sy'n cael ei amlygu fel opsiwn a ffafrir, a diystyrwyd pob un o'r lleill am fod yr anfanteision yn tra threchu'r manteision disgwyliedig, fel y dangosir yn y tabl.

I grynhoi, mae'r anfanteision isod yn bresennol mewn sawl un o'r opsiynau –

- Ni chyflawnwyd manteision amgylchedd ddysgu 21ain gnarif ar gyfer pob un o'r tair ysgol.
- Ddim yn ddichonadwy – oherwydd argaeledd tir neu anawsterau gyda'r safleoedd a amlygwyd.
- Cost ychwanegol sylweddol ac oedi ychwanegol.
- Ni chafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru.

***Yr opsiwn a ffafrir - Opsiwn 6***

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn, mae'r swyddogion o'r farn y bydd cau ysgolion cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llan-giwg a sefydlu ysgol gymunedol newydd ar gyfer 630

o ddisgyblion a 140 o ddisgyblion meithrin mewn adeilad yr 21ain Ganrif yn darparu'r buddion gorau i ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach yn ei chyfanrwydd.

Mae cynnwys canolfan cymorth dysgu ar gyfer disgyblion oedran cynradd ag ASA yn rhoi cyfle i ddarparu cyfleuster pwrpasol i ddisgyblion â'r nod o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddisgyblion.

Yn ogystal, bydd sefydlu'r ysgol ar y safle a nodwyd ym Mharc Ynysderw a chreu cyfleusterau dysgu, iechyd a lles gwell a chynnwys y ganolfan hamdden, pwll nofio newydd ac Ysgol Gyfun Gymunedol Cwmtawe, yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a gwella addysg gynradd yn yr ardal.

**Gwybodaeth am yr ysgol newydd arfaethedig**

Bydd yr ysgol gynradd yr 21ain Ganrif arfaethedig newydd yn cynnal hyd at 630 o ddisgyblion llawn amser a 140 o ddisgyblion meithrin rhan-amser (70 am / 70 pm), ac 16 o ddisgyblion yn y ganolfan cymorth dysgu. Bydd hyn yn darparu digon o lety ar gyfer cyfanswm nifer y disgyblion a ragwelir o'r tair ysgol gynradd bresennol ac ar gyfer twf yn nifer y disgyblion. At ddibenion ymgynghori, nifer y derbyniadau arfaethedig ar gyfer yr ysgol gynradd fydd 90.

Mae'r rhifau rhagweledig hyn yn pennu maint yr adeilad a sawl dosbarth ac ystafell ychwanegol fydd angen eu cynnwys yn yr ysgol newydd arfaethedig. Cynhwyswyd yr wybodaeth hon yn yr Achos Busnes a gyflwynwyd gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid i adeiladu'r ysgol newydd arfaethedig, a chraffwyd arni a'i chymeradwyo.

Dangosir rhagolygon niferoedd disgyblion dros bum mlynedd ar gyfer y 3 ysgol yn Nhabl 1 isod. Cyfrifir y rhagolygon ar sail data Gwirioneddol PLASC Ionawr 2022 – gyda phob un o'r grwpiau blwyddyn wedi'u disgyn ar gyfer blynyddoedd canlynol. Seilir ffigurau Meithrin a Derbyn ar gyfartaledd y 3 blynedd flaenorol.

*Tabl 7*

| Ysgol | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Ionawr 2025 | Ionawr 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Alltwen (ac eithrio'r meithrin) | 203 | 199 | 191 | 193 | 187 | 189 |
| Meithrin Ysgol Gynradd Alltwen yn unig | 33 | 32 | 32 | 32 | 32 | 32 |
| Ysgol Gynradd Godre'r-graig (ac eithrio'r meithrin) | 134 | 131 | 120 | 119 | 118 | 119 |
| Meithrin Ysgol Gynradd Godre'r-graig yn unig | 22 | 22 | 20 | 21 | 21 | 21 |
| Ysgol Gynradd Llan-giwg (ac eithrio'r meithrin) | 109 | 107 | 93 | 90 | 87 | 89 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin Ysgol Gynradd Llan-giwg yn unig | 16 | 16 | 16 | 16 | 16 | 16 |
| | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Newydd (ac eithrio'r meithrin) | *446* | *437* | *404* | 402 | 392 | 397 |
| Meithrin yr Ysgol Gynradd Newydd yn unig | *71* | *70* | *68* | 69 | 69 | 69 |

Serch hynny, mae angen ystyried y ffigurau yn y tabl isod ynghyd â gwybodaeth arall sy'n bodoli. Mae'n anodd pennu'n hollol gywir faint o le fydd yn yr ysgol gynradd newydd, ac am nad oes disgwyl i'r ysgol newydd arfaethedig agor tan 2025, mae rhagweld faint o blant fydd angen lle gymaint â hyn ymlaen llaw yn fwy heriol fyth. Serch hynny, mae'n hanfodol bwysig sicrhau fod maint yr ysgol yn ddigonol i allu cartrefu **pob** disgybl sy'n gymwys i hawlio lle pan fydd yr ysgol newydd yn agor, ac yn y dyfodol. Gallai darparu lle annigonol olygu bod yn rhaid i ddisgyblion orfod teithio i'r ysgol agosaf sydd ar gael, sy'n gallu peri gofid i ddisgyblion sy'n gorfod symud oddi wrth eu cyfoedion, a gall hefyd fod yn gostus, am y bydd angen darparu trafnidiaeth ychwanegol.

Dylid nodi nad yw'n fwriad gan y Cyngor gynnwys unrhyw ysgol arall yn yr ardal yn y cynnig hwn. Ni ddylid cynnwys poblogaeth unrhyw ysgol ychwanegol yn y cynnig hwn heb fynd drwy broses ymgynghori lawn bellach.

Cafodd nifer o ffactorau eu hystyried er mwyn amcangyfrif faint o le y bydd galw amdano yn yr ysgol newydd. Mae hyn yn cynnwys ystod o ffynonellau data, ynghyd â phrofiad adeiladu ysgolion blaenorol a deilliannau'r rheiny.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae niferoedd y disgyblion oedran cynradd yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot a leolir yng Nghwm Tawe wedi cynyddu gan ymron i 130 disgybl ychwanegol, a disgwylir y bydd y niferoedd hyn yn parhau i godi wrth i'r boblogaeth barhau i dyfu. Mae poblogaeth disgyblion yn symudol ar draws yr ysgolion cynradd.

*Tabl 8*

| *Ysgolion a gynhwysir* | ***2012*** | ***2013*** | ***2014*** | ***2015*** | ***2016*** | ***2017*** | ***2018*** | ***2019*** | ***2020*** | ***2021*** | ***2022*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Alltwen*** | *252* | *260* | *226* | *195* | *215* | *223* | *234* | *240* | *231* | *254* | *255* |
| ***Godre'r-graig*** | *95* | *102* | *118* | *126* | *138* | *147* | *156* | *159* | *153* | *155* | *134* |
| ***Llan-giwg*** | *87* | *99* | *136* | *159* | *152* | *150* | *136* | *138* | *136* | *124* | *125* |

*Tabl 9*

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhos** | 144 | 148 | 161 | 161 | 153 | 150 | 156 | 148 | 150 | 155 | 157 |
| **Rhydyfro** | 107 | 118 | 124 | 125 | 137 | 154 | 154 | 153 | 167 | 169 | 175 |
| **YGG Pontardawe** | 340 | 332 | 336 | 349 | 351 | 352 | 356 | 347 | 336 | 322 | 335 |
| **YGG Trebannws** | 120 | 116 | 123 | 115 | 118 | 104 | 104 | 102 | 101 | 102 | 97 |
| **YG YBD (cynradd)** | | | | | | | 152 | 159 | 157 | 162 | 160 |
| **YGG Y Wern** | 165 | 156 | 150 | 155 | 149 | 148 | | | | | |

Awgryma data fod modd i niferoedd disgyblion newid yn sylweddol dros gyfod byr o amser yn yr ysgolion hyn, wrth i niferoedd sylweddol o ddisgyblion fynychu o'r tu allan i ddalgylch eu hysgolion, ond oddi fewn i ardal ehangach Cwm Tawe, fel y dangosir gan y tabl isod.

Tabl 10: Canrannau Ysgolion a Dalgylchoedd Disgyblion. Ffynhonnell data: PLASC 2022

| **Ysgolion cyfrwng Saesneg** | **Canran o ddisgyblion yn y dalgylch** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Alltwen** | **Llan-giwg** | **Rhydyfro** | **Godre'r-graig** | **Rhos** |
| **Alltwen** | **59.3%** | 12.1% | 1.2% | 6.6% | 12.9% |
| **Llan-giwg** | 19.4% | **58.6%** | 20.7% | 14.8% | 4.3% |
| **Rhydyfro** | 3.2% | 1.0% | **59.1%** | 1.6% | 2.2% |
| **Godre'r-graig** | 9.3% | 23.2% | 6.1% | **69.6%** | 1.4% |
| **Rhos** | 3.7% | 0% | 0.6% | 0.8% | **70.5%** |

Roedd dros 100 o blant o ddalgylch Alltwen, Godre'r-graig a Llan-giwg yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid yw'r awdurdod hwn yn cadw data am ddisgyblion sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot ond sy'n mynychu'r ysgol mewn mannau eraill, serch hynny dengys gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol eraill fod nifer sylweddol o blant o Gwm Tawe hefyd yn teithio i gael addysg cyfrwng Saesneg i Bowys ac Abertawe.

Tabl 11 (Tachwedd 2022)

| | Niferoedd disgyblion |
|---|---|
| Disgyblion sy'n byw yn nalgylch Alltwen, Llan-giwg neu Godre'r-graig sy'n mynychu ysgol cyfrwng Saesneg mewn man arall yn CPT | 109 |
| Disgyblion sy'n mynychu ysgol cyfrwng Saesneg y tu allan i CPT (Abertawe a Phowys) | 204 |
| **Cyfanswm y disgyblion** | **313** |

Yn ogystal, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys manylion nifer o ddatblygiadau tai newydd, a chrëwyd 486 uned newydd eisoes yn yr ardal, ac mae 11 cynllun tai pellach ar y gweill, a allai

gynhyrchu dros 580 yn rhagor o unedau erbyn 2026. Gallai hyn weld cynnydd ychwanegol mewn niferoedd disgyblion yn yr ardal, gan ychwanegu at y niferoedd y byddai'n rhaid i'r ysgol newydd arfaethedig roi cartref iddynt.

## **<u>Manteision ysgol a adeiladwyd o'r newydd</u>**

Mae adeiladu ysgol newydd yn rhoi cyfle i ddarparu amgylchedd ddysgu ac addysgu sbardunol mewn cyfleusterau hollol gyfoes, 21ain Ganrif a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar hunan-barch a llesiant disgyblion, ac a fydd yn gweithredu gyda'r nod o wella deilliannau dysgu ar gyfer pob plentyn ar draws yr ystod gallu.

Gydag ysgol newydd, daw mwy o ddewis a chyfleoedd gwell oherwydd bod mwy o le a chyfleusterau gwell. Yn adroddiad Estyn yn 2007, 'Gwerthusiad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu'n sylweddol', adroddir bod cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion yn gwella'n sylweddol pan fyddant yn symud i adeiladau newydd neu adeiladau a adnewyddwyd yn sylweddol, yn enwedig pan fydd ysgolion mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

Bydd yr ysgol newydd yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleusterau TGCh hyblyg sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr 21ain Ganrif. Bydd technoleg symudol yn cael ei hintegreiddio â sylfaen addysgeg gadarn i roi profiadau dysgu gwell i ddisgyblion, gan roi'r sgiliau a'r cymhelliant allweddol sydd eu hangen arnynt i godi safonau.

Bydd yr ysgol newydd yn lle cyffrous i ddisgyblion ac i staff, ar y tu fewn a'r tu allan. Bydd ganddi ddosbarthiadau â digon o le, golau ac awyr, gyda mynediad i ystod o leoedd addas, o ansawdd uchel, ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol.

Nododd adroddiad 'Ystafelloedd Dosbarth Clyfar' 2015, y gall ysgolion sydd wedi'u cynllunio'n dda roi hwb sylweddol i berfformiad academaidd plant o ran darllen, ysgrifennu a mathemateg.

Bydd yr ysgol yn galluogi i gwricwlwm cynhwysol, ar sail sgiliau, gael ei ddarparu, sy'n canoli ar y disgybl, ac sy'n ymestyn i gynnwys gweithgareddau cymdeithasol a chwaraeon. Ei nod fydd hybu cydraddoldeb a chynhwysiant drwy ddarparu cyfleusterau – chwaraeon a diwylliannol – y gall disgyblion eu defnyddio, ac y gall yr ysgol eu rhannu â'r gymuned.

Yn ychwanegol, ac yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Cyngor i daclo newid hinsawdd, bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei chynllunio i fod yn ysgol garbon sero net.

Mae codi adeilad newydd fel hyn yn fuddsoddiad sylweddol yn nyfodol pobl ifanc yr ardal, ac mae'n arwyddo'n glir fod y Cyngor o ddifri ynghylch gwneud ysgolion yn lleoliadau addysgu addas i'w pwrpas.

Mae Atodiad E yn cynnwys gwybodaeth am ysgolion newydd blaenorol a adeiladwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys lluniau a barn disgyblion, staff, Llywodraethwyr a rhieni, a gymerodd ran mewn adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl agor yr ysgol newydd.

## **Gwybodaeth am y Ganolfan Cymorth Dysgu arfaethedig**

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion Castell-nedd Port Talbot sydd angen cefnogaeth arbenigol ar gyfer eu hanghenion addysgol mewn dwy ysgol arbennig gymunedol ac mewn canolfannau cefnogi dysgu / cynhwysiant a gysylltir ag ysgolion cynradd / uwchradd cymunedol.

Mae gwaith diweddar a wnaed i adolygu'r niferoedd a'r mathau o leoedd a gynlluniwyd, ynghyd â llunio asesiad o'r ddarpariaeth ledled Castell-nedd Port Talbot, wedi awgrymu fod angen darparu lleoedd ychwanegol ym meysydd Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD) ac Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD), ac, ar gyfer y disgyblion blynyddoedd cynnar hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a amlygwyd, ac y mae angen mwy o asesiad arnynt.

Y cynnig yw bod yr ysgol newydd yn cynnwys LSC ar gyfer hyd at 16 disgybl oedran cynradd gyda datganiad o ASD. Bydd cynnwys y ddarpariaeth hon yn yr adeilad newydd yn sicrhau fod disgyblion yn derbyn manteision cyfleusterau o safon 21ain Ganrif a adeiladwyd yn bwrpasol, gyda'r nod o sicrhau'r deilliannau gorau posib i ddisgyblion, a bydd hefyd yn mynd i'r afael ag angen a amlygwyd ar gyfer creu mwy o ddarpariaeth i ddisgyblion ag ASD, yn benodol ymysg disgyblion oedran cynradd.

Ar hyn o bryd, i ddisgyblion oedran cynradd ag ASD sydd angen cefnogaeth arbenigol neu asesiad, ceir darpariaeth yn Ysgol Gynradd Gnoll (18 lle), Ysgol Gynradd Maesmarchog (18 lle) ac ysgol Gynradd Waunceirch (19 lle). Ceir darpariaeth uwchradd yn Ysgol Gymunedol Cwmtawe (13 lle), Ysgol Bae Baglan (29 lle), Ysgol Hendrefelin (32 lle) ac ysgol Gyfun Dŵr-y-felin (16 lle). Mae'r galw uchel ar lefel cynradd ac uwchradd yn rhoi pwysau ar y ddarpariaeth bresennol, sy'n llawn yn gyson.

Awgryma dadansoddiad o'r data fod angen i sawl disgybl yng Nghwm Tawe deithio i gael cefnogaeth ddysgu ychwanegol mewn unedau arbenigol mewn mannau eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot. Byddai creu darpariaeth newydd yn yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu lleoedd ychwanegol mewn ardal ble amlygwyd bod yna angen yn bodoli.

Cynigir felly y bydd yr ysgol newydd yn cynnwys LSC a fydd yn darparu cefnogaeth ddysgu i ddisgyblion ag ASD ar gyfer hyd at 16 disgybl sydd wedi derbyn Datganiad ASA.

Rheolir y ddarpariaeth gan yr ysgol a bydd o dan drefniadau llywodraethu'r ysgol. Fodd bynnag, bydd yn gyfleuster a gydnabyddir gan y Cyngor fel un sydd wedi'i neilltuo ar gyfer disgyblion ag AAA a byddai'r disgyblion a dderbynnir i'r tymor hir CCD arfaethedig yn ychwanegol at nifer derbyn yr ysgol. Byddai mynediad i'r ddarpariaeth yn cael ei wneud drwy banel derbyn arbennig o'r Cyngor a bydd meini prawf mynediad ac allanfa penodol yn berthnasol.

Bydd disgyblion yn y CCD arfaethedig yn cael budd o gael eu haddysgu gan staff arbenigol, sydd â phrofiad o weithio gyda disgyblion ag anghenion ASD. Bydd y cyfleuster hwn ar gyfer disgyblion sydd â datganiad AAA ac sydd angen darpariaeth tymor hir.

Bydd y ddarpariaeth arfaethedig yn lliniaru'r pwysau presennol i fynd i'r afael â'r galw am leoedd i ddisgyblion ag anghenion ASD, gan osgoi lleoliadau costus posibl y tu allan i'r sir.

**Gwybodaeth am y pwll arfaethedig**

Yn ogystal â'r ysgol gynradd newydd a'r ddarpariaeth ASA arbenigol, cynigir hefyd y dylid cynnwys pwll nofio 25 metr, 6 lôn, gyda phwll dysgwyr ychwanegol newydd yn lle pwll nofio presennol Pontardawe. Bydd y pwll yn gyfleuster ychwanegol ynghyd â'r ganolfan hamdden, a bydd yn adnewyddu ac yn gwella'r cyfleusterau iechyd a lles yn yr ardal.

Bydd yr adeilad ysgol newydd gyfunol, y ddarpariaeth ASA arbenigol a'r cyfleusterau hamdden yn rhan o gampws dysgu, iechyd a lles cymunedol ar safle Parc Ynysderw, gan ategu darpariaeth bresennol Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Defnyddir y pwll gan rai

ysgolion yn yr ardal ar hyn o bryd ond nod y cynllun hwn yw cynyddu'r defnydd gan ysgolion a chan y gymuned ehangach oherwydd ei leoliad gwell.

Adeiladwyd Pwll Nofio Pontardawe ym 1974. Dangosodd yr arolwg cyflwr diweddaraf o fis Awst 2014, er bod yr adeilad mewn cyflwr rhesymol, fod y gwasanaethau adeiladu craidd wedi rhagori ar y cylch oes disgwyliedig a argymhellir ganddynt. Amlygwyd bod angen cyfanswm gwerth £1,221,783 o waith cynnal a chadw rhwng 2015 a 2022. Oherwydd cymhlethdod y gwaith fyddai angen ei wneud, argymhellwyd ar y pryd y dylid cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith mewn un cam er mwyn lleihau faint o darfu cyffredinol fyddai'n digwydd i'r cyfleuster. Hyd yn hyn, oherwydd gwasgfeydd ar wariant cyfalaf a logisteg ynghylch amserlennu, nid oes dim o'r gwaith hwn wedi'i wneud.

Yn 2022, gwnaed arolwg pellach, sydd wedi amlygu fod 'y namau strwythurol difrifol oedd wedi'u nodi eisoes mewn adroddiadau blaenorol wedi parhau i ddirywio. Bellach, mae'n hanfodol gwneud y gwaith trwsio hwn, a hynny ar frys."

I grynhoi, noda'r adroddiad y byddai ymestyn oes yr adeilad presennol yn sylweddol yn galw am waith trwsio helaeth a chostus, sy'n debygol o fod yn rhy ddrud o'i gymharu â chostau darparu cyfleuster newydd. Mae'n tynnu sylw at y ffaith "y byddai angen gweithredu ar unwaith pe bai'r Cyngor yn dymuno parhau i weithredu'r cyfleuster yn y cyfamser" (adroddiad arolwg 2022.

O ystyried cyflwr cymharol wael ac oedran y cyfleusterau presennol, ynghyd â'r lle sydd ar gael ar safle arfaethedig Parc Ynysderw, cyflwynir cyfle i'r cyngor integreiddio'r pwll a chyfleusterau ysgol gan greu ysgol gynaliadwy ac ased cymunedol newydd. Bydd cynnwys pwll yn yr ysgol yn gwella'r cyfleoedd gweithgarwch corfforol a lles sydd ar gael i ddisgyblion a fydd yn mynychu'r ysgol newydd, yn ogystal â'r rheini o Ysgol Gymunedol Cwmtawe a disgyblion ysgolion cyfagos eraill, gan gynnwys YGG Trebannws ac YGG Pontardawe.

Bydd y cyfleuster hefyd yn darparu cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer gwersi nofio a chyfranogiad i breswylwyr o bob oed yn y cymunedau cyfagos. Bydd y campws hwn yn darparu cyfleusterau hamdden modern lle gall pobl fwynhau gweithgarwch corfforol, a lle caiff iechyd a lles corfforol a meddyliol eu hyrwyddo'n gadarnhaol yn y cymunedau lleol.

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn datgan fod chwech o'r wyth LLSOA sy'n gwasanaethu Cwm Tawe ymysg y 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gynnwys yn y parthau cyflogaeth, iechyd, addysg a mynediad i wasanaethau. Bydd creu campws dysgu yn darparu cyfleusterau modern, addas i'w pwrpas addysgol, iechyd a hamdden i holl aelodau cymuned Cwm Tawe, gan ddarparu pwynt canolog i'r gymuned ar gyfer iechyd a llesiant ar draws pob oedran a chydlyniant yn ardal ehangach Pontardawe. Bydd yn helpu i ddarparu nod Cyngor o wella iechyd a llesiant pawb sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot a lleihau'r bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf iach.

## Manteision disgwyliedig y cynnig

Mae'r cynnig yn ceisio darparu cyfleusterau addysgol ac iechyd a lles gwell i gymuned Cwm Tawe, drwy greu campws dysgu, iechyd a lles cymunedol i blant ac oedolion o bob oed.

Bydd y cynnig yn arwain at ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan arwain at arbedion refeniw i'w hailfuddsoddi yn y gyllideb addysg - ac ar gyfer unrhyw dderbyniadau cyfalaf sy'n cronni yn

yr un modd. Yn hyn o beth, mae'r cynnig yn cefnogi rheolaeth effeithiol y cyngor o'i gyllideb addysg ac yn hyrwyddo dosbarthiad tecach o gyllid ar draws ysgolion lleol.
Gall creu ysgol gynradd sydd â nifer uwch o ddisgyblion wneud y canlynol:

- galluogi cyflwyno'r cwricwlwm cyfan yn fwy effeithiol
- atal yr angen am ddosbarthiadau oedran cymysg o grwpiau sy'n cynnwys mwy na 2 flwyddyn ysgol
- darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio rhwng cyfoedion a datblygu sgiliau cymdeithasol
- lleihau llwyth gwaith athrawon drwy rannu cyfrifoldebau'n ehangach
- darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol
- darparu rhagor o gymorth pwrpasol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol drwy arbenigedd ehangach a mwy o staff cymorth
- caniatáu gwell datblygiad staff, mwy o gyfle i ddatblygu'r cwricwlwm a chyfleoedd gyrfa drwy brofiad ehangach a gwell opsiynau o ran datblygiad proffesiynol parhaus
- galluogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau, gan gynnwys arbed arian drwy arbedion maint
- rhoi mwy o hyblygrwydd i'r pennaeth a'r corff llywodraethu wrth drefnu dosbarthiadau a defnyddio staff

**<u>Risgiau Posib a Rheoli Risgiau</u>**

Cynhaliwyd asesiad risg dan bolisi Rheoli Risgiau 2018 y cyngor.

Mae'r risgiau posib sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cynnwys enw da'r cyngor, safonau addysgol, rheolaeth ariannol, cyflogaeth staff a chyflwyno gwasanaethau.

Mae meysydd risg posib wrth roi'r cynnig ar waith yn cynnwys:

- gwrthwynebiad i newid gan arwain at ddiffyg cefnogaeth gan ddisgyblion, rhieni a staff
- nid yw safonau addysgol yn cael eu cynnal
- cefnogaeth lai effeithiol ar gyfer lles disgyblion mewn ysgol fwy ac mewn lleoliad gwahanol
- amser teithio o'r cartref i'r ysgol yn cynyddu i rai disgyblion
- pryder staff ynghylch sicrwydd swyddi a threfniadau rheoli newydd
- yr ysgol yn colli hunaniaeth yn sgîl cau sefydliadau presennol
- nid yw niferoedd y disgyblion a ragwelwyd yn dod i'r fei
- dyraniad y gyllideb yn annigonol i ddiwallu'r angen
- nid yw cyfle ariannu cyfalaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei wireddu
- nid yw'r Gymraeg yn cael ei datblygu ymhellach

- gwahaniaethu yn erbyn nodweddion gwarchodedig
- colli cyfleusterau cymunedol
- mwy o gyfrifoldebau llywodraethu a staff

Bydd methu â rhoi'r cynnig ar waith yn arwain at beidio â gwireddu'r buddion dysgu/addysgu ac ariannol canlynol, yn enwedig mewn perthynas â:

- darparu amgylchedd dysgu ac addysgu ysgogol a blaengar a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch a lles yr holl ddisgyblion a staff
- disgyblion yn defnyddio amrywiaeth ehangach o arbenigedd staff
- cyfleoedd i grwpiau cymheiriaid ryngweithio'n ehangach
- staff yn cael mwy o gyfle i ddatblygu'r cwricwlwm a chyfleodd gyrfa drwy brofiad ehangach a gwell opsiynau datblygiad proffesiynol parhaus
- defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol, ac arbedion drwy ddarbodion maint
- lleihau nifer y lleoedd disgyblion sydd dros ben a gwella adeiladau ysgol
- creu campws dysgu a hamdden sy'n hybu cydlyniant cymunedol

Bydd manteision rhoi'r cynnig ar waith yn lliniaru effeithiau'r risgiau a nodwyd. Mae ysgol newydd yn rhoi rhagolygon gwell i wella cyflawniad addysgol disgyblion. Adroddodd Estyn (Ionawr 2007) ar berfformiad ysgolion cyn ac ôl symud i adeiladau newydd, gan ddweud nad yw hen adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael yn gallu diwallu anghenion dysgu ac addysgu cyfoes. Mae'r adroddiad yn nodi hefyd fod gwella safonau yn fwy o her mewn adeiladau annigonol ac roedd cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion wedi gwella yn y rhan fwyaf o ysgolion ag adeiladau newydd neu rai wedi'u gweddnewid. Mewn rhai achosion roedd y gwelliant yn sylweddol.

**<u>Beth yw effaith hyn ar y disgyblion a'r rhieni?</u>**

Bydd yr ysgol gynradd newydd yn gwasanaethu dalgylchoedd cyfunol ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig a Llan-giwg. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu ysgogol o fewn cyfleusterau'r 21ain Ganrif o'r radd flaenaf, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar hunanhyder a lles disgyblion ac yn ceisio gwella deilliannau dysgu i blant o bob gallu. Bydd gan yr ysgol newydd ddigon o gaeau chwarae a mannau gwyrdd ar y safle, nad ydynt ar gael ar safleoedd presennol yr ysgolion ac y gellir sicrhau eu bod ar gael at ddefnydd y gymuned.

Bydd y trefniadau ar gyfer derbyniadau i'r ysgol gynradd newydd yn caniatáu i ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr yn ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig a Llan-giwg drosglwyddo i gofrestr yr ysgol newydd pan fyddant yn cau, yn amodol ar ddymuniadau rhieni neu oni bai fod y disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd. Bydd angen i ddarpar-ddisgyblion (gan gynnwys disgyblion meithrin sy'n trosglwyddo i addysg amser llawn) wneud cais am le yn yr ysgol gynradd yn unol â threfniadau Polisi Derbyniadau Ysgol y cyngor.

Bydd maint y dosbarthiadau yn yr ysgol gynradd newydd yn cael eu pennu gan y pennaeth a'r corff llywodraethu. Wrth bennu maint dosbarthiadau, dilynir deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr argymhelliad na ddylai dosbarthiadau fod yn fwy na 30 o ddisgyblion.

Byddai mynediad i'r ddarpariaeth arfaethedig yn cael ei wneud drwy banel derbyn arbennig o'r Cyngor a bydd meini prawf mynediad ac allanfa penodol yn berthnasol.

**<u>Beth yw'r effaith ar y gweithlu?</u>**

Bydd y cynnig yn golygu newidiadau sy'n effeithio ar gyflogaeth staff ysgol. Bydd pob un o'r ysgolion presennol yn cau ar 31 Awst 2024. Ar ôl cau, bydd cyflogaeth yr holl staff yn yr ysgolion hynny'n dod i ben. Bydd yr ysgol newydd yn gosod strwythur staffio newydd sy'n briodol i'w hanghenion a'i chyllideb.

Sefydlir corff llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol gynradd. Bydd gan y corff llywodraethu'r cyfrifoldeb dros benodi Pennaeth. Yn benodol mewn perthynas â swyddi pennaeth a dirprwy bennaeth, polisi'r cyngor yw bod angen hysbysebu'r rhain yn genedlaethol. Unwaith y bydd y pennaeth wedi'i benodi, bydd y person hwnnw, ynghyd â'r corff llywodraethu dros dro, yn gyfrifol am bennu strwythur staffio'r ysgol gynradd newydd.

Bydd yr ysgol gynradd yn agor ar 1 Medi 2024 a chaiff staff yr ysgol eu cyflogi gan y corff llywodraethu newydd ar gyfer yr ysgol gynradd (er ei fod wedi'i benodi gan y corff llywodraethu dros dro).

Fel rhan o'r broses, bydd holl staff yr ysgol yn cael eu cefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yr ysgol a fydd yn cynnwys ymgynghoriad llawn.

Mae profiad blaenorol wedi dangos bod rhai aelodau o staff yn dymuno sicrhau cyflogaeth barhaol yn yr ysgol newydd ond bydd eraill yn manteisio ar y cyfle i ymgymryd â heriau newydd mewn mannau eraill. Bydd gweithwyr y nodwyd eu bod mewn perygl o gael eu diswyddo yn cael mynediad at Gofrestr Ystyriaeth Ymlaen Llaw y cyngor. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i gefnogi staff sydd mewn perygl o gael eu diswyddo'n orfodol ac mae wedi sicrhau cefnogaeth ac ewyllys da cymdeithasau athrawon/undebau llafur a chyrff llywodraethu ar draws y cyngor drwy addewid cyflogwyr. Mae gan y cyngor enw da am gefnogi staff mewn sefyllfaoedd o'r fath.

**Beth yw'r effaith ar lywodraethwyr?**

Os aiff y cynnig yn ei flaen, sefydlir corff llywodraethu dros dro cyn i'r ysgol gynradd gael ei hagor. Bydd y corff llywodraethu dros dro'n gwneud penderfyniadau pwysig am yr ysgol newydd, gan gynnwys penodi Pennaeth, cytuno ar strwythur staffio a mabwysiadu gweithdrefnau gweithredu. Bydd y corff llywodraethu dros dro hefyd yn datrys unrhyw faterion eraill gan gynnwys gwisg ysgol y penderfynir arni, yn unol ag arfer da, yn dilyn ymgynghoriad â disgyblion a rhieni.

Mae'n debygol y bydd y corff llywodraethu dros dro yn cynnwys llywodraethwyr presennol o ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig a Llan-giwg gan fod hyn yn sicrhau parhad gan olygu y bydd gan yr ysgol sylfaen dda.

Bydd pob ysgol yn parhau i fodoli, wedi'u rheoli gan eu cyrff llywodraethu priodol, nes i'r tair ohonynt gau. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y cyrff llywodraethu presennol a'r corff dros dro yn cyflawni eu dyletswyddau ar yr un pryd.

Pan gaiff yr ysgol newydd ei hagor, caiff ei rheoli gan y corff llywodraethu dros dro nes y sefydlir corff llywodraethu parhaol. Bydd cyrff llywodraethu ysgolion cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llan-giwg yn peidio â bod unwaith yr agorir yr ysgol newydd.

**Beth yw'r effaith ar drefniadau teithio?**

I lawer o'r disgyblion oed cynradd mae lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd ar y safle yn Ynysderw yn parhau i fod o fewn pellter teithio 2 filltir ar gyfer cartrefi yn y dalgylch. Mae amseroedd teithio o'r cartref i'r ysgol o fewn y dalgylch o fewn terfynau rhesymol ar gyfer disgyblion oedran cynradd. Cyn i'r ysgol newydd agor, bydd llwybrau cerdded addas yn cael eu hasesu.

Bydd cymorth gyda theithio o'r cartref i'r ysgol ar gael yn unol â pholisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Golyga hyn y bydd disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas neu ddynodedig agosaf yn cael eu hystyried ar gyfer cymorth cludiant

Yn unol â gofynion y Cynllun Teithio i'r Ysgol, mae'r holl ysgolion, ynghyd â Thîm Diogelwch Ffyrdd y cyngor yn ymrwymedig i'r canlynol:

- gwella diogelwch ar y ffyrdd o fewn y gymuned leol
- cynyddu ymwybyddiaeth o faterion teithio
- annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i'r ysgol lle bynnag y bo'n briodol
- annog teithio annibynnol lle bynnag y bo'n briodol

Mae'r Polisi Derbyniadau Ysgol a'r Polisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol ar gael ar wefan y cyngor: www.npt.gov.uk

**Beth yw'r effaith ar ddisgyblion ag AAA?**

Nid oes unedau arbenigol ar gyfer plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn unrhyw un o'r tair ysgol, h.y. darpariaeth y mae'r cyngor yn cydnabod ei bod wedi'i neilltuo ar gyfer disgyblion ag AAA. Cefnogir disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mewn lleoliad prif ffrwd gyda chyllid priodol at y diben hwn. Bydd yr ysgol newydd yn parhau i gynnig y lefel hon o gymorth.

Mae dadansoddiad data'n awgrymu bod nifer o ddisgyblion yng Nghwm Tawe'n teithio i gael cymorth dysgu ychwanegol mewn unedau arbenigol mewn mannau eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r data hefyd yn dangos y galw cynyddol am gymorth arbenigol ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn ardal CNPT ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

Bydd disgyblion yn y ganolfan gymorth dysgu arfaethedig yn elwa o gael addysg gan staff arbenigol â phrofiad o weithio gyda disgyblion ag anghenion ASA. Mae posibilrwydd hefyd y gallai disgyblion prif ffrwd ag ASA elwa hefyd o'r arbenigedd sydd ar gael gan y bydd gwybodaeth a sgiliau arbenigol y

staff a gyflogir i weithio yn y ganolfan gymorth dysgu arfaethedig ar gael i'w rhannu â'r staff prif ffrwd ac, o ganlyniad, bydd o fudd anuniongyrchol i ddarpariaeth AAA yn yr ysgol newydd.

Rhagwelir hefyd y bydd darpariaeth y ganolfan gymorth dysgu'n gallu darparu cymorth a hyfforddiant i ysgolion cynradd prif ffrwd eraill ar draws Castell-nedd Port Talbot, trwy feithrin sgiliau, cymwyseddau, arbenigedd a gallu'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant ag ASA.

**Beth yw'r effaith ariannol?**

Amcangyfrifir mai cost yr adeilad newydd yw oddeutu £22,705,000 fel a ddosrannwyd yn nhabl 12 isod.

Tabl 12

| Prosiect | Buddsoddiad CNPT | Buddsoddiad Llywodraeth Cymru | Cyfanswm y Buddsoddiad |
|---|---|---|---|
| Ysgol Newydd Cwm Tawe | 7,946,750 | 14,758,250 | 22,705,000 |

Daw'r cyllid gan Lywodraeth Cymru o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a gymeradwywyd yng ngham Achos Busnes Amlinellol datblygu'r prosiect. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn hefyd, yn ddibynnol ar amodau. Cymeradwywyd y cyllid yn benodol ar gyfer y cynnig hwn, ac nid oes modd ei gyfnewid – os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd i'r cynnig hwn, neu os cyflwynir cynnig newydd, yna byddai angen cyflwyno hwnnw o'r newydd gerbron Llywodraeth Cymru, ar gyfer mynd drwy broses achos busnes newydd, a byddai angen asesu hwnnw'n llawn yn yr un modd.

Mae ôl-groniad costau cynnal a chadw a hygyrchedd cyfunol ar gyfer yr ysgolion presennol yn cyfateb i oddeutu £1.9m, a fyddai'n cael ei ddileu gan y cynnig hwn, ynghyd â'r angen parhaus i ariannu costau cysylltiedig llety cyfredol Ysgol Gynradd Godre'r-graig ar brydles. Yn ogystal, byddai'r cynnig hwn hefyd yn dileu'r ôl-groniad o gostau cynnal a chadw ar gyfer y gronfa bresennol sy'n dod i gyfanswm o £1,221,783

Dosberthir cyllid refeniw ar gyfer ysgolion yn flynyddol drwy fformiwla gymeradwy. Mae hyn yn sicrhau bod cyfrannau cyllideb ysgolion yn cael eu dyrannu ar sail wrthrychol a mesuradwy syml.

Mae'r rhan fwyaf o ddyraniad y gyllideb refeniw i ysgolion cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llan-giwg yn dibynnu ar niferoedd disgyblion. Yn yr un modd, bydd cyllideb yr ysgol gynradd newydd yn seiliedig yn bennaf ar y gofrestr disgyblion gyfunol. Bydd arbedion yn digwydd gan y bydd gan yr ysgol newydd un pennaeth ac un strwythur rheoli. Caiff arbedion refeniw eu hail-fuddsoddi yn y gyllideb addysg. Yn hyn o beth, mae'r cynnig yn cefnogi rheolaeth effeithiol y cyngor o'i gyllideb addysg ac yn hyrwyddo dosbarthiad tecach o gyllid ar draws ysgolion lleol.

Bydd ysgol newydd arfaethedig yn derbyn cyllid ychwanegol i reoli'r ddarpariaeth ar gyfer hyd at 16 o ddisgyblion. Mae bodloni addysg anghenion arbennig disgyblion mewn lleoliadau lleol, h.y. o fewn y Fwrdeistref Sirol, yn osgoi gorfod sicrhau darpariaeth ddrud y tu allan i'r Sir. Mae'r gost o ddarparu addysg y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbenigol yn uchel, a gall fod

yn oddeutu £80k y disgybl y flwyddyn. Mae hyn yn flynyddol yn cynrychioli galw sylweddol ar gyllideb addysg y Cyngor.

Gall fod costau refeniw cylchol ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn megis costau trafnidiaeth ychwanegol posib. Yn yr un modd, bydd arbedion effeithlonrwydd refeniw yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

Yn seiliedig ar yr arian a ddirprwywyd i ysgolion ym mlwyddyn ariannol 2020/2021, y cyllid fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Alltwen yw £3,685, y cyllid fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llan-giwg yw £3,965 a'r cyllid fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Godre’r-graig yw £3,886. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd CPT, sef £3,941.

Yn seiliedig ar ysgol o 770 disgybl (700 CiAS) amcangyfrifir fod cyfran arfaethedig y gyllideb ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig yn 2022/23 = £2,556,487. Byddai cyllid fesul disgybl ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig oddeutu £3.652.

Mae’n debygol y byddai’n rhaid talu costau teithio ychwanegol pe gweithredid y cynnig. Ar hyn o bryd mae costau teithio blynyddol ar gyfer Ysgol Gynradd Godre’r-graig yn £101.245. Cytunwyd y byddai cymorth trafnidiaeth dan ddisgresiwn yn cael ei roi i ddisgyblion meithrin fel rhan o amod symud Ysgol Gynradd Godre’r-graig o Heol Graig i’r lleoliad dros-dro ym Mharc Ynysderw, ac mae’r gost hon wedi’i chynnwys yn y ffigwr uchod. O ran disgyblion ychwanegol fyddai angen cael eu cludo am fod newid ysgol yn codi niferoedd y disgyblion cymwys, ar gyfer pob bws mini, y gost ar gyfartaledd yw £150-£200 bob dydd; fel arall, ar gyfer pob bws mawr, y gost ddyddiol yw £220-£260 y dydd. Ni wyddys hyd yn hyn sawl plentyn fydd yn gymwys i dderbyn trafnidiaeth.

Cyn i'r ysgol gynradd agor ym mis Medi 2024, bydd ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig a Llan-giwg yn derbyn eu cyfrannau cyllideb ysgol blynyddol ar gyfer 5/12fed o flwyddyn ariannol 2023/2024. Pan fydd yr ysgol newydd yn agor ar 1 Medi 2024, bydd yn derbyn cyfran o'r gyllideb yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr bryd hynny.

**<u>Beth yw'r effaith ar ddefnydd y gymuned?</u>**

Mae'r cynnig ar gyfer yr ysgol newydd hefyd yn cynnwys creu campws dysgu, iechyd a lles cymunedol trwy adeiladu pwll nofio newydd ar safle Parc Ynysderw â'r nod o ddarparu cyfleoedd i bob aelod o gymuned Cwm Tawe elwa o gyfleusterau modern sy'n addas at y diben. Bydd lleoliad yr ysgol a'r pwll newydd ger safle presennol Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu ac integreiddio darpariaeth gymunedol ymhellach â phartneriaid cyflenwi ar gyfer gweithgareddau Hamdden dan do ac yn yr awyr agored. Defnyddir y pwll gan rai ysgolion yn yr ardal ar hyn o bryd ond nod y cynllun hwn yw cynyddu'r defnydd a wneir gan ysgolion a'r gymuned ehangach oherwydd ei lleoliad gwell.

Mae gan Ysgol Gyfun Cwmtawe amrywiaeth o gyfleusterau y gall grwpiau cymunedol eu defnyddio gan gynnwys cyrtiau tenis caled, mannau cyfarfod, cyfleusterau arbenigol a mannau perfformio. Bydd y cyfleusterau hyn yn parhau i fod ar gael a gall y gymuned gael defnydd llawn ohonynt, a bydd cyfleusterau'r ysgol gynradd yn ategu ac yn ymestyn y rhain, gan ddarparu ystod eang o weithgareddau, gwasanaethau a phrofiadau i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae cyfleusterau blynyddoedd cynnar a gofal plant eisoes ar gael o fewn pellter cerdded i'r ysgol newydd, a disgwylir y bydd gofal ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd yn haws i'w hwyluso oherwydd y lleoliad.

Yn ogystal, mae gan Bontardawe dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, ac mae'n adnabyddus am hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Byddai agosrwydd y campws dysgu newydd at ganol tref Pontardawe yn sicrhau bod disgyblion a theuluoedd yn gallu elwa o'r dreftadaeth hon a chyfrannu ati.

Bydd y cynnig hwn yn helpu i gyflwyno nod y cyngor, sef gwella iechyd a lles pawb sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot a lleihau'r bwlch rhwng y bobl fwyaf iach a lleiaf iach.

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cymunedol (CIA) i bwrpas darparu gwybodaeth am effaith y cynnig ar fynediad y gymuned leol i gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn y tair ysgol. Cafodd ei baratoi yn unol â gofynion Cod Trefnu Ysgolion Llywodraeth Cymru. Paratowyd y CIA gan ddefnyddio ystod o ffynonellau a thystiolaeth, gan gynnwys trafod gyda sefydliadau partner amrywiol yng Nghwm Tawe a’r ysgolion. Mae’r CIA ar gael yn Atodiad C.

**<u>Asesiad Effaith Integredig</u>**

Gwnaed asesiad effaith integredig. Byddai’r cynnig yn creu Ysgol 21ain Ganrif mewn adeilad newydd ar gyfer disgyblion, a fyddai’n gwella llesiant, ac a fyddai’n darparu amodau er mwyn gwella safonau. Byddai ychwanegu LSC ar gyfer disgyblion ASD oedran cynradd yn ateb y galw ar gyfer darpariaeth ychwanegol yng Nghastell-nedd Port Talbot a byddai’n ceisio gwella cyfleoedd i’r disgyblion hynny, yn ogystal â darparu hyfforddiant a datblygid i staff y brif ffrwd yn yr ysgol arfaethedig a’r ardal ehangach. Byddai’r pwll nofio newydd arfaethedig yn cyd-fynd â darpariaeth bresennol ac yn gwella’r cynnig iechyd a llesiant i ddisgyblion a’r gymuned ehangach.

Amlinellir nodau llesiant y Cyngor a’r blaenoriaethau gwella sy’n eu cefnogi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae’r cynnig hwn yn cefnogi un nod llesiant yn uniongyrchol – ‘sicrhau fod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd', drwy ddarparu ysgol 21ain Ganrif i genedlaethau heddiw a'r dyfodol o blant oedran cynradd. Drwy gynnwys LSC 16 lle ar gyfer disgyblion cynradd ag ASD yn y cynnig, tystir i gefnogaeth bellach i’r cynllun, drwy sicrhau fod disgyblion ag ADY hefyd yn cael cyfleoedd i elwa o gyfleusterau newydd a adeiladwyd yn bwrpasol.

Drwy greu cyfleusterau y gellir eu defnyddio gan y gymuned, mae’r cynnig hefyd yn cyfrannu at y nod llesiant – ‘mae pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy’.

Er mwyn derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i’r cynllun busnes, bu’n hanfodol sicrhau fod manteision cymunedol yn cael eu harchwilio’n llawn, a nodi y cânt eu gweithredu drwy gydol y cyfnod adeiladu. Bydd rhan o’r gwaith hwn yn sicrhau fod busnesau lleol yn cael eu defnyddio i gyflenwi llafur a deunyddiau pryd bynnag y bydd hynny’n ddichonadwy, bydd pobl leol yn elwa drwy gynnydd yn y nifer o bobl sy’n gweithio yn yr ardal, Mae hyn yn cyfrannu at nod llesiant 4 – ‘Gan weithio gyda’n partneriaid, rydym ni’n creu’r amodau ar gyfer gwaith gwyrdd, mwy sicr, sy’n talu’n dda, yn yr ardal, ac yn cefnogi pobl leol i fynd i’r swyddi hyn’.

**Beth yw'r effaith ar y Gymraeg?**

Gwnaed Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg, ac fe'i cynhwysir fel Atodiad D i'r ddogfen hon.

Er bod y cynigion hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Saesneg, ceir darpar effaith (a all fod yn gadarnhaol, negyddol neu niwtral) ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir, sydd wedi cael ei ystyried hefyd.

Mae'r Asesiad Effaith Cymraeg yn cydnabod y gall fod sawl effaith o ganlyniad i'r cynllun hwn ar ddatblygu'r Gymraeg yn y gymuned ac ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Tynnir sylw at ddarpar effeithiau posib, ynghyd â gweithredoedd a argymhellir i liniaru effeithiau negyddol posib, yn ogystal ag amlygu camau ychwanegol i atgyfnerthu effeithiau cadarnhaol.

Gwahoddir y rhai sy'n cael eu hymgynghori i wneud sylwadau penodol ar yr Asesiad Effaith hwn ac ar ddarpar effeithiau ar yr iaith Gymraeg.

**Gwybodaeth am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn galw ar i Awdurdodau Lleol ddarparu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae cynllun drafft CSCA Castell-nedd Port Talbot yn rhoi manylion y cynllun i gefnogi a datblygu ymhellach addysg Gymraeg mewn addysg, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac yn y cymunedau ehangach, ac o ran cynllunio ar gyfer twf pellach. Mae'r cynllun yn rhoi manylion sut y bydd datblygiad pellach yn cael ei sicrha dros y 10 mlynedd nesaf: Ionawr 2022 – Ionawr 2032. CSCA 2022-32 yw conglfaen gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cynlluniau i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, er mwyn galluogi pob dysgwr i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywyd beunyddiol. Mae'n cyd-fynd â hwyluso'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg, ac yn cynorthwyo gyda'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Datblygwyd y cynllun drwy weithio'n agos gyda phartneriaid gan gynnwys ysgolion Castell-nedd Port Talbot, y Fenter Iaith, RhAG, Mudiad Meithrin, Coleg Castell-nedd Port Talbot, Academi Hywel Dda Prifysgol Abertawe, yr Urdd a Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y CSCA drafft i weinidogion Llywodraeth Cymru wedi iddo dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar 2 Chwefror 2022. Ym mis Mai 2022, yn unol ag Adran 85(5)(a) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"), ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â swyddogion o ran gwneud amnewidiadau i'r cynllun. Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd ar y rhan fwyaf o'r amnewidiadau, ac amnewidiwyd y CSCA. Rhoddwyd cymeradwyaeth ffurfiol i'r CSCA gan y Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg wedyn ym mis Gorffennaf 2022, a rhoddwyd cymeradwyaeth y Cyngor ar 28 Medi 2022.

**<u>Proses gyfreithiol ac ymgynghoriad</u>**

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol y gall y Cyngor ei ddefnyddio i weithredu cynnig. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2018, a wnaed o dan Adrannau 38 a 39 o'r Ddeddf, yn gosod gofynion a chanllawiau'r Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Mae gweithdrefnau'r Cyngor yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Bydd trefniadau teithio disgyblion yn unol â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008; Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014; a Pholisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, 2017.

Bydd cyllid refeniw yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; Rheoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010; a fformiwla gymeradwy'r Cyngor ar gyfer ariannu ysgolion.

Bydd rheoli staff y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn dilyn gofynion polisi perthnasol a gweithdrefn yr ysgol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw'r cynigydd ac mae'r Cyngor yn dymuno clywed barn yr holl bartïon â diddordeb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i gynnig. Bydd pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried wrth wneud ei benderfyniad a bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Bydd yr adroddiad ymgynghori yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ac yn cynnwys ymateb gan y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori hefyd yn nodi barn Estyn ar y cynnig.

Ar ôl ystyried y farn a fynegwyd gan y rhai sydd â diddordeb, os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'i gynllun fe fydd yn cyhoeddi cynnig statudol. Ar ôl i'r cynnig statudol gael ei gyhoeddi bydd cyfnod o 28 diwrnod i ymateb yn ysgrifenedig, sef y 'cyfnod gwrthwynebu'. Dim ond gwrthwynebiadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod hwn fydd yn cael eu hystyried. Os derbynnir gwrthwynebiadau, caiff adroddiad gwrthwynebu ei gyhoeddi yn dilyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Bydd yr adroddiad yn crynhoi pob gwrthwynebiad a godir ac yn rhoi ymateb y Cyngor.

***Noder: dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod rhybudd statudol fydd yn cael eu hystyried. Bydd angen ailgyflwyno unrhyw sylw a gyflwynir fel rhan o'r broses ymgynghori yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod rhybudd statudol os yw i'w ystyried yn wrthwynebiad.***

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, mae'n ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar y cynnig a bydd y mater yn mynd gerbron Bwrdd Cabinet y Cyngor i'w benderfynu. Wrth wneud penderfyniad, bydd Bwrdd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw wrthwynebiadau a godwyd yn ogystal â'r achos o blaid y cynnig. Penderfynir ar y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion cysylltiedig 2018.

**<u>Amserlen y Broses</u>**

Nodir isod y prif weithgareddau a'r camau gweithredu, a'r dyddiadau/cyfnodau y maent wedi'u trefnu i ddigwydd.

| Beth | Pryd |
|---|---|
| Cyhoeddi’r ddogfen ymgynghori | 5ed Rhagfyr 2022 |
| Cyfnod ar gyfer cyflwyno ymatebion | 5ed Rhagfyr 2022- 24ain Ionawr 2023 |
| Cyhoeddi’r adroddiad ymgynghori | Chwefror 2023 |
| Dyddiad gweithredu arfaethedig | 1af Medi 2025 |

**Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc**

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre’r-graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg a bydd y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Anfonir y ddogfen ymgynghori hon at ddisgyblion mewn ysgolion a allai gael eu heffeithio gan y cynnig.

**<u>Gwneud sylwadau ar y cynnig</u>**

Diben y ddogfen ymgynghori hon yw rhoi gwybodaeth a gwahodd sylwadau ar gynnig y Cyngor i sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg newydd i gymryd lle Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre’r-graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg, y bydd pob un ohonynt yn cau.

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cyfnod: 5ed Rhagfyr 2022 i 24ain Ionawr 2023. Rhaid cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y cynnig drwy lythyr, e-bost neu ar y ffurflen sylwadau sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon.

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd gan ddefnyddio'r Porth Ymgynghori ar wefan y Cyngor neu drwy e-bost at SSIP@npt.gov.uk.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 24ain Ionawr 2023 am 12.00pm**. Yn anffodus ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Dylid anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol: **Andrew Thomas, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, (wedi'i farcio at sylw'r tîm SSIP), y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ** neu drwy e-bost **i: SSIP@npt.gov.uk**

Gellir gweld rhestr lawn o'r rhai yr ymgynghorir â hwy isod:

<table>
<tr><th colspan="2">Rhestr o Ymgyngoreion</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig a Llan-giwg:<br>Disgyblion<br>Rhieni / gofalwyr<br>Staff<br>Corff Llywodraethu<br>Cymuned ehangach yr ysgol</td><td>NAASH (Fforwm Ysgolion Uwchradd)</td></tr>
<tr><td>LLAN (Fforwm Ysgolion Cynradd)</td></tr>
<tr><td>Awdurdodau ffiniol – Abertawe/Pen-y-bont ar Ogwr/Sir Gaerfyrddin/Powys/RhCT</td></tr>
<tr><td>Holl ysgolion eraill CNPT</td><td>Cyngor Tref Pontardawe<br>Cyngor Cymuned Cilybebyll<br>Cyngor Cymuned Cwmllynfell</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Cyngor Cymuned Gwaun Cae Gurwen<br><br>Cyngor Cymuned Ystalyfera |
| Aelodau etholedig NPT | Is-adran Rheolaeth Ysgolion LlC |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol<br><br>- Esgobaeth Menevia, Abertawe<br>- Esgobaeth Llandaf, Bro Morgannwg | AS ac AC (dros Gastell-nedd ac Aberafan) |
| Undebau llafur | Aelodau Cynulliad Rhanbarthol |
| Estyn | Partneriaid AAA |
| Consortiwm Addysg Rhanbarthol (ERW) | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) |
| Uned Trafnidiaeth Integredig CBSCPT | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Swyddogion CBSCPT |

## *Ffurflen Sylwadau*

## Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 yn lle Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg.

Mae eich barn yn bwysig. Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei feddwl am y cynnig drwy gwblhau'r holiadur hwn. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw ganol dydd ar 24ain o Ionawr 2023. Os bydd angen lle ychwanegol, gellir anfon sylwadau i SSIP@npt.gov.uk

***Sylwer na fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig hwn, cânt eu cofnodi fel sylwadau croes. Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.***

**Dywedwch sut rydych chi'n gysylltiedig â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:**

☐ Rhiant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Darpar riant, ofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr

☐ Aelod o staff

☐ Aelod o'r gymuned

☐ Arall

Os arall, nodwch

**Nodwch ba ysgol rydych chi'n gysylltiedig â hi**

☐ Alltwen

☐ Godre'r-graig

☐ Llan-giwg

☐ Other

Os arall, nodwch

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 oed yn lle ysgolion cynradd Alltwen, Godre’r-graig a Llan-giwg?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

**Os ydych**, defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu esboniwch pa ran o'r cynnig rydych chi'n ei gefnogi.

| |
|---|
| |

**Os nad ydych**, defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu esboniwch pa ran o'r cynnig nad ydych chi'n ei gefnogi.

| |
|---|
| |

**Oes gennych chi opsiynau amgen yr hoffech chi i ni eu hystyried?**

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich sylwadau

| |
|---|
| |

**Effeithiau posib ar y Gymraeg**

**Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

☐ Cadarnhaol ☐ Negyddol ☐ Niwtral

Rhowch fanylion

Rhowch fanylion ynghylch sut y gellid llunio neu ddiwygio'r cynnig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhowch fanylion ynghylch sut y gellid llunio neu ddiwygio'r cynnig fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

**Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

☐ Cadarnhaol ☐ Negyddol ☐ Niwtral

Rhowch fanylion

Rhowch fanylion ynghylch sut y gellid llunio neu ddiwygio'r cynnig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| |

Rhowch fanylion sut y gellid llunio neu ddiwygio'r cynnig fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| |

**Effeithiau posib ar y nodweddion gwarchodedig**

**A fydd y cynnig yn effeithio ar y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Y nodweddion gwarchodedig yw oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol

☐ Cadarnhaol ☐ Negyddol ☐ Niwtral

**Rhowch fanylion y nodwedd(ion) warchodedig rydych chi'n meddwl bydd y cynnig yn effeithio arni/arnynt yn y blwch isod**

| |
|---|
| |

**Rhowch fanylion yr effaith gadarnhaol neu negyddol a nodwyd gennych fel canlyniad i'r nodwedd(ion) warchodedig**

| |
|---|
| |

**Os ydych wedi nodi effaith gadarnhaol yn seiliedig ar y nodwedd(ion) warchodedig, rhowch fanylion ynghylch sut gallem wella'r effaith honno.**

| |
|---|
| |

**Os ydych wedi nodi effaith negyddol yn seiliedig ar y nodwedd(ion) warchodedig, rhowch fanylion ynghylch yr hyn y gallem ei ystyried i leihau neu ddileu'r effaith negyddol.**

**Effeithiau posib ar y Gymuned**

**Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y gymuned leol?**

☐ Cadarnhaol ☐ Negyddol ☐ Niwtral

Rhowch fanylion yr effaith a pha gamau y gallem eu hystyried i leihau neu ddileu hyn a gwella effeithiau cadarnhaol ar y gymuned leol

**Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori a fydd yn crynhoi'r materion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ac yn darparu ymateb y cyngor i'r materion hyn.**

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023.

**Os hoffech gael eich hysbysu am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt yma**

Enw:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad post:

Sylwadau/awgrymiadau ychwanegol:

## Amdanoch chi:

Mae'r cyngor yn gweithredu polisïau cydraddoldeb sy'n ceisio sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal. Er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth gael mynediad i'n gwasanaethau, rydym yn monitro ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau canlynol. Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi'n hollol gyfrinachol.

**Oedran:** *(✓un ateb)*

- ☐ Dan 16 oed
- ☐ 16-24
- ☐ 25-29
- ☐ 30-39
- ☐ 40-49
- ☐ 50-59
- ☐ 60-74
- ☐ 75-85
- ☐ 86+
- ☐ Dewis peidio â dweud

**Y Gymraeg** – a ydych yn: *(✓un ateb)*

- ☐ Siarad ac ysgrifennu'n rhugl
- ☐ Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl
- ☐ Siaradwr rhugl
- ☐ Siaradwr gweddol rugl
- ☐ Dysgwr
- ☐ Ychydig neu ddim gwybodaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio rhywun sy’n anabl fel rhywun â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir (h.y. wedi para neu disgwylir iddi bara am o leiaf 12 mis) ar allu'r person i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**A ydych yn ystyried bod anabledd gennych?** *(✓un ateb)*

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dewis peidio â dweud

**Tarddiad ethnig:** *(✓un ateb)*

- ☐ Gwyn: Prydeinig
- ☐ Gwyn: Gwyddelig
- ☐ Cymysg: Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Cymysg: Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Cymysg: Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Indiaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Du: Affricanaidd
- ☐ Du: Caribïaidd
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Dewis peidio â dweud
- ☐ Arall *nodwch:* ____________________

**Rhyw** *(✓un ateb)*

☐ Gwryw ☐ Benyw ☐ Trawsryweddol ☐ Dewis peidio â dweud

**Crefydd/Credo**: *(✓un ateb)*

☐ Cristion ☐ Bwdaidd ☐ Hindwaidd ☐ Iddewig ☐ Moslemaidd

☐ Sicaidd ☐ Dim crefydd ☐ Dewis peidio â dweud

☐ Unrhyw crefydd arall – nodwch:

**Cyfeiriadedd Rhywiol** *(✓un ateb)*

☐ Heterorywiol ☐ Lesbiaidd ☐ Hoyw ☐ Deurywiol ☐ Dewis peidio â dweud

**Cenedligrwydd** *(✓un ateb)*

☐ Cymreig ☐ Albanaidd ☐ Seisnig ☐ Prydeinig

☐ Gwyddelig ☐ Dewis peidio â dweud

☐ Unrhyw cenedligrwydd arall – nodwch:

***DIOLCH I CHI AM EICH AMSER***